OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 56

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016

## RHAN 7

### Gwrandawiadau

**Gweithdrefn mewn gwrandawiad**

**26.**—(1) Y person penodedig sydd i lywyddu mewn unrhyw wrandawiad, a rhaid iddo benderfynu ar y weithdrefn yn y gwrandawiad, yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid cynnal gwrandawiad ar ffurf trafodaeth a arweinir gan y person penodedig, a rhaid peidio â chaniatáu croesholi.

(3) Pan fo'r person penodedig o'r farn bod croesholi yn angenrheidiol, rhaid i'r person penodedig ystyried (ar ôl ymgynghori â'r ceisydd) a ddylid cau'r gwrandawiad a chynnal ymchwiliad yn ei le.

(4) Ar ddechrau'r gwrandawiad, rhaid i'r person penodedig nodi pa faterion y mae'n ofynnol iddo, ym marn y person penodedig, gael sylwadau pellach arnynt yn y gwrandawiad.

(5) Mae hawl gan y ceisydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw berson a wahoddwyd i gymryd rhan mewn gwrandawiad i alw tystiolaeth.

(6) Caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson arall alw tystiolaeth.

(7) Caiff y person penodedig wrthod caniatáu rhoi neu ddangos tystiolaeth neu gyflwyno unrhyw fater arall a ystyrir gan y person penodedig yn amherthnasol neu'n ailadroddus.

(8) Pan fo'r person penodedig yn gwrthod caniatáu rhoi tystiolaeth ar lafar, caiff y person sy'n dymuno rhoi'r dystiolaeth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn cau'r gwrandawiad.

(9) Caiff y person penodedig—

(a) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson, sy'n cymryd rhan neu sy'n bresennol mewn gwrandawiad, yn ymadael os yw'n ymddwyn mewn modd sydd, ym marn y person penodedig, yn tarfu ar eraill; a

(b) gwrthod caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd; neu

(c) caniatáu i'r person hwnnw ddychwelyd ar y cyfryw amodau, yn unig, a bennir gan y person penodedig,

ond caiff unrhyw berson o'r fath gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig cyn cau'r gwrandawiad.

(10) Caiff y person penodedig gymryd i ystyriaeth unrhyw sylw ysgrifenedig neu ddogfen arall a gaiff cyn cau'r gwrandawiad, ar yr amod bod y person penodedig yn datgelu hynny yn y gwrandawiad.

(11) Caiff y person penodedig wahodd unrhyw berson sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad i gyflwyno cyflwyniadau cloi, a rhaid i unrhyw berson sy'n gwneud hynny ddarparu copi ysgrifenedig o'i gyflwyniadau cloi i'r person penodedig cyn cau'r gwrandawiad.

(12) Yn ddarostyngedig i baragraff (7) caiff y person penodedig ganiatáu i unrhyw berson wneud sylwadau ar lafar yn y gwrandawiad.

(13) Caiff unrhyw berson sydd â hawl, neu a ganiateir, i wneud sylwadau ar lafar mewn gwrandawiad wneud hynny ar ei ran ei hunan, neu gael ei gynrychioli gan unrhyw berson arall